| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor Llawn** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **24 Chwefror 2015** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Julian Thompson-Hill / Paul McGrady** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Paul McGrady / Rod Urquhart** |
| **Teitl:** <br> **Cysylltiedig** | **Treth y Cyngor 2015/2016 a Materion** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Wrth fabwysiadu penderfyniadau cyfarfod cyllideb y Cyngor ar 3 Chwefror 2015 mae angen i'r Cyngor wneud penderfyniadau pellach mewn ffurf benodol i sicrhau bod Treth y Cyngor a materion cysylltiedig yn gyfreithiol ddilys.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae angen penderfyniad i osod lefelau Treth y Cyngor ar gyfer 2015/16.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor Sir, fel yr Awdurdod Bilio i ystyried yr argymhellion a dderbyniwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a'r Cynghorau Tref/Cymuned a datgan lefelau Treth y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2015/2016.

3.2 Argymhellir bod y symiau a gyfrifwyd gan y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2015/16, yn unol ag Adrannau 32 i 34 (1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (y Ddeddf) a'r Rheoliadau Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol (Cymru) 2008 fel yn adran 3 Atodiad A.

3.3 Argymhellir bod y symiau a gyfrifwyd gan y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2015/16, yn unol ag Adrannau 34 (2) i 36 (1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (y Ddeddf) fel yn adran 4 Atodiad A.

3.4 Bod symiau Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015/16 i bob un o'r categorïau anheddau fel y dangosir yn Atodiad C.

3.5 Bod lefel y disgownt ar gyfer Dosbarth A, B, ac C fel y pennir o dan Reoliadau Treth y Cyngor (Dosbarth Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 2004 yn cael ei gosod ar sero ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2015/16 a 2016/17 sef tymor y Cyngor hwn gyda'r cafeat bod hyn yn ddibynnol ar ddim newidiadau i Ddeddfwriaeth neu amodau lleol.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Oherwydd y gofyniad i gymeradwyo'r penderfyniad a'r argymhellion yn y modd a bennwyd, mae Ychwanegiad A yn cynnwys manylion yr adroddiad.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Os nad yw'r argymhellion yn cael eu cymeradwyo, ni fydd yr Awdurdod yn gallu codi biliau Treth y Cyngor, felly ni fydd incwm sydd ei angen i ariannu Blaenoriaethau Corfforaethol ar gael.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae'r gost o godi a dosbarthu gofynion Treth y Cyngor, yn cael ei gwrthbwyso'n rhannol gan hysbysiadau Budd-dal Tai yn uno, y mae’n rhaid eu hanfon yn ôl y gyfraith.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai’r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.

Ni chynhaliwyd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb oherwydd bod y penderfyniad hwn yn ofyniad cyfreithiol i alluogi’r penderfyniad o ran y Gyllideb.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda’r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

Mae lefel Treth y Cyngor yn dod o'r gyllideb a osodwyd gan y Cyngor. Datblygwyd y gyllideb yn ystod heriau gwasanaeth gafodd sylw gan aelodau a swyddogion a thrwy gyfres o weithdai aelodau. Cymeradwyodd y Cyngor llawn y gyllideb ar 3 Chwefror 2015.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor i osod Treth y Cyngor. Mae'r rheoliadau’n gyfarwyddol o ran sut mae hyn yn cael ei wneud ac mae'r adroddiad hwn yn cwrdd â'r gofynion hynny.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Y risg ariannol o beidio â gallu casglu incwm Treth y Cyngor

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol (Cymru) 2008